

## Tasg 1

# Noson y Radisys

### Atebwch y cwestiynau hyn.

1. Beth yw ffurf y darn? (✓)

a. neges e-bost

b. blog

c. erthygl

ch. poster

Rhowch reswm dros eich ateb.

2. Beth yw pwrpas y darn? (✓)

a. beirniadu

b. denu pobl i'r digwyddiad

c. rhoi gwybodaeth

ch. cwyno

Rhowch reswm dros eich ateb.

3. Mae'r arddull yn ... (✓)

a. ffurfiol

b. barddonol

c. perswadiol

ch. personol

Rhowch reswm dros eich ateb

4. Ticiwch (✓) **Ffaith** neu **Barn**:

		Ffaith	Barn
a.	Mae'r gystadleuaeth yn gyffrous iawn.		
b.	Mae cerfio radisys yn waith diflas iawn.		
c.	Maen nhw'n cerfio am ddau ddiwrnod.		
ch.	Mae llawer o bobl yn dod i weld y gystadleuaeth.		
d.	Mae'n anodd cadw'r radisys yn ffres - maen nhw'n mynd yn frown ar ôl cerfio nhw.		
dd.	Byddai'n braf cael cystadleuaeth cerfio erfin / maip yng Nghymru adeg y Nadolig.		
e.	Byddai cerfio ysgewyll yn dwy diddorol.		

5. Sylwch ar yr ymadroddion hyn yn y darn:

darn o <b>dir</b> arbennig	cymeriadau o <b>ddiwylliant</b> yr ardal
----------------------------	--

Sylwch ar y treigladau meddal ar ôl "o".

Ysgrifennwch y geiriau mewn cromfachau yn gywir yn y bylchau.

a.	Llawer o ...	(pobl)
b.	Tipyn o ...	(problem)
c.	Ychydig o ...	(cacen)
ch.	Poteliad o ...	(pop)
d.	Pecyn o ...	(creision)
dd.	Darn o ...	(bara)
e.	Litr o ...	(llaeth)
f.	Kilo o ...	(grawnwin)
ff.	Cant o ...	(merched)
g.	Deg o ...	(bechgyn)

6. Hoffech chi fynd i Noson y Radisys ym Mecsico?

Trafodwch hyn mewn grŵp, gan roi rhesymau dos eich ateb.

Hoffech chi fynd i rywle arall adeg y Nadolig, neu ydych chi'n hapus i aros yng Nghymru?

Trafodwch hyn mewn grŵp, gan roi rhesymau dros eich ateb.